# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## DYDD MAWRTH, 5 RHAGFYR 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd M.D. Cranham (Y Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn Rhithwir):**
W.T. Evans P.T. Warlow K.V. Broom (dirprwy)

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
D. Neuman, Partner Busnes Arweiniol (Dysgu a Datblygu)
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 9.15 - 9.33 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd R. Sparks a'r Cynghorydd F. Walters.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

## 3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 MEDI 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi, 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2024/25

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w ystyried, sy'n nodi ei gynigion ar daliadau o ran cydnabyddiaeth a lwfansau ar gyfer Aelodau Etholedig ac Aelodau Cyfetholedig Awdurdodau Lleol ar gyfer 2024/25.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r prif newidiadau arfaethedig ar gyfer Prif Gynghorau yn 2024/25, ynghyd â'r goblygiadau cysylltiedig i'r Awdurdod. Yn unol â hynny, fel

rhan o broses ymgynghori Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gwahoddwyd yr aelodau i roi adborth ar yr adroddiad drafft.

Tynnwyd sylw at y cynigion mewn perthynas â thaliadau i'r aelod cyfetholedig lle codwyd pryderon y gallai cyflwyno cyfradd fesul awr ar gyfer cyfarfodydd arwain at anghysondebau ar draws Awdurdodau Lleol Cymru wrth bennu cyfraddau ar gyfer diwrnod llawn, hanner diwrnod neu fesul awr o ran taliadau.

Dywedwyd nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u cynnig mewn perthynas â lwfansau teithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er gwaethaf y cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd yn ystod y cyfnod hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**4.1 derbyn yr adroddiad, a**

**4.2 fel rhan o'r broses ymgynghori, fod Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno ymateb i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar ran y Pwyllgor.**

## 5. POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd wedi'i atodi i ddiwygiadau arfaethedig i Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad yr Awdurdod.

Cafodd Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad yr Awdurdod ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 12 Hydref 2022 (gweler cofnod 4.1) gan ystyried y canllawiau statudol dros dro a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chanllawiau terfynol ar 7 Gorffennaf 2023 ac o ganlyniad ystyrid ei bod yn briodol adolygu'r polisi yn seiliedig ar brofiad yr Awdurdod o gyfarfodydd aml-leoliad hyd yma.

Roedd y diwygiadau arfaethedig i'r polisi, yn seiliedig ar adborth gan Gadeiryddion Pwyllgorau, yn cynnwys mwy o ganllawiau ar ddefnyddio camerâu ar gyfer y rhai sy'n mynychu o bell er mwyn cynnal dilysrwydd proses yr Awdurdod o wneud penderfyniadau a lleihau'r cyfle am her gyfreithiol yn hyn o beth. Roedd mân welliannau mewn ymateb i lacio cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â Covid a hefyd cynigiwyd methodoleg o ran pleidleisio.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd cyfarfodydd aml-leoliad o safbwynt hygyrchedd fel ffordd o wella a chefnogi democratiaeth leol a galluogi aelodau i weithio'n fwy cynhyrchiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR fod y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad diwygiedig yn cael ei gymeradwyo.**

## 6. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2023/24

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar weithredu Cynllun Datblygu'r Aelodau 2023/2024.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor, mewn ymateb i'r adborth a ddarperir yn ystod gwerthuso Rhaglen Sefydlu'r Aelodau, y byddai mynediad at recordiadau o'r sesiynau hyfforddi a datblygu ar gyfer aelodau ar gael drwy'r System Rheoli Dysgu ar-lein o fis Ionawr 2024 ymlaen. Croesawodd y Pwyllgor fod y system yn cael ei chyflwyno fel ffordd o wella hygyrchedd i sesiynau hyfforddi a datblygu yng nghyd-destun y gofynion amrywiol sy'n cael eu rhoi ar aelodau.

Cyfeiriwyd at y sesiynau hyfforddiant *geo-discovery* ychwanegol a drefnwyd ar gyfer yr aelodau, a fyddai hefyd yn rhan o'r catalog o bynciau a fyddai ar gael drwy'r System Rheoli Dysgu yn y dyfodol.

Mewn diweddariad i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y Partner Busnes Arweiniol ar gyfer Dysgu a Datblygu y byddai'r aelodau'n cael cyfle i gynnal Adolygiad o Ddatblygiad Personol gyda'u Harweinwyr Grwpiau perthnasol. Roedd disgwyl i'r Adolygiadau gael eu cynnal erbyn 31 Rhagfyr 2023, a byddai'r canlyniadau'n llywio'r Cynllun Datblygu Aelodau wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y diweddariad ar gynnydd Cynllun Datblygu'r Aelodau 2023/24 yn cael ei dderbyn.**

________________________ __________________

**CHAIR** **DATE**